

Canolfan Ddiwylliant Conwy

DATGANIAD DYLUNIO A MYNEDIAD

Cynnwys

Manylion Cyffredinol

Cyflwyniad

Y Broses Ddylunio

Cyd-destun Polisi Cynllunio

Cyd-destun y Safle

Y Safle

Mynediad

Cysyniad y Naws a'r Dyluniad

Diogelwch Cymunedol

Cynaliadwyedd

Symudiad

Manylion Cyffredinol

- Disgrifiad: Canolfan Ddiwylliant Conwy
- Lleoliad: Parc Bodlondeb, Conwy
- Cod Post: LL32 8NG
- Cyfeiriad Grid yr Arolwg Ordnans: SH 779776
- Arwynebedd y Safle: 0.46 ha
- Arwynebedd Llawr Mewnol Crynswth yr Adeilad Presennol: 278 m²
- Arwynebedd Llawr Mewnol Crynswth Arfaethedig y Dymchweliad: 278 m²
- Arwynebedd Llawr Mewnol Crynswth Arfaethedig yr Estyniad Newydd: 1243 m²
- Arwynebedd Llawr Mewnol Crynswth Terfynol Arfaethedig: 1243 m²
- Cleient: Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy County Borough Council

Cyflwyniad

Y mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad hwn wedi'i baratoi mewn perthynas â'r prosiect i ddatblygu Canolfan Ddiwylliant newydd yng Nghonwy. Bydd y ganolfan yn cynnwys:

- Llyfrgell ardal newydd i Gonwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno.
- Cartref newydd i Archifdy Conwy.
- Canolbwynt celfyddydau a threftadaeth gyda dehongliad rhyngweithiol a chasgliadau hanesyddol ar ddangos.
- Gofod a chyfleusterau ieuenctid a chymunedol i gefnogi rhaglen o gyfleoedd hyfforddiant achrededig i bobl o bob oed yn ogystal â chefnogaeth i wirfoddolwyr a chyfleoedd datblygu i bobl ledled y sir.

Y Broses Ddylunio

Bu Ymgysylltu ac Ymgynghori â swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy drwy gydol camau datblygu dyluniad y prosiect. Cydnabyddir ei bod yn debygol y bydd angen rhagor o ymgynghoriad manwl wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen.

Cafwyd cyfarfodydd i sefydlu egwyddorion dylunio, dealltwriaeth o gyd-destun y safle, datblygiad gweledigaeth eglur a chytundeb ynghylch amcanion dyluniadol y briff.

Cafwyd ymgysylltiad o gyfnod cynnar â'r Cyhoedd, Arweinwyr Cymunedol, Cynghorwyr a Rhanddeiliaid eraill, a bu'n gadarnhaol iawn hyd yn hyn. Lle roedd yn yn briodol ymgorfforwyd sylwadau'r Rhanddeiliaid a'r defnyddwyr terfynol hyn yn y cynllun. Bu'r ymgynghoriadau ar ffurf cyfarfodydd ag unigolion allweddol, ac Arddangosfeydd Cyhoeddus yn Llyfrgell Conwy, yn ogystal â chael eu cynnal drwy wefan CBSC. Y mae ymatebion wedi cael eu recordio drwy gydol y broses a'u bwydo yn ôl i mewn i'r broses ddylunio.

Mewn llawer o achosion bydd trafodaethau'n parhau, er enghraifft gyda chynrychiolwyr o wahanol adrannau o CBSC i sicrhau bod y Ganolfan newydd yn ymateb i ofynion ymarferol y briff arfaethedig, ond ei bod hefyd yn adeilad â chostau rheolaeth/cynnal isel, bod ystyriaeth wedi'i rhoi i gostau cylch oes defnyddiau adeiladu a chydrannau a'i bod yn gyffredinol gynaliadwy.

Cyd-destun Polisi Cynllunio

'Dylai pob adeilad newydd fod o ansawdd uchel, dyluniad cynaliadwy ac mae rhaid iddo barchu a gwella'r ardal o'i gwmpas heb amharu ar amwynder lleol'

Cynllun Datblygu Lleol Conwy

Polisi Cynllunio

Cyfeiriwyd drwyddi draw at y Polisi Cynllunio a'r Dogfennau Canllawiau Datblygu Atodol cyfredol sydd wedi'u cyhoeddi gan CBSC, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU lle bo'n berthnasol. Ym mhob achos y mae'r cynigion wedi ceisio cadw at y polisiau a'r ddedfwriaeth fabwysiedig hyn. Yn benodol, cyfeiriwyd at y canlynol:

- Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007-2022 (Mabwysiadwyd Hydref 2013)
- TAN 5 Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cadwraeth Natur a Chynllunio
- TAN 12 Llywodraeth Cynulliad Cymru, Dylunio
- PD5454:2012 Canllawiau ar gyfer storio ac arddangos defnyddiau archifol
- Canllawiau Cynllunio Atodol Conwy CDLI2: Safonau Parcio
- Llawlyfr ar gyfer Strydoedd 2007 Adran Drafnidiaeth

Hanes Cynllunio

Y mae'r Hanes Cynllunio sy'n gysylltiedig â'r safle yn ymwneud â Defnydd Addysgol. Y mae'r Arfarniad Treftadaeth gan Holland Heritage (Medi 2016) yn nodi i 'Ysgol Bodlondeb gael ei hadeiladu fel Ysgol i Ferched yn 1897 yng nghornel de-ddwyreiniol y tir parc ym Modlondeb' ac fe â ymlaen i sôn ei bod wedi mynd yn ysgol fabanod yn 1927 a chau yn 1998.

Yn 1999 mabwysiadwyd yr adeilad yn lleoliad i Glwb Ieuencid ac y mae'n cael ei ddefnyddio yn y modd hwn, a chan grwpiau cymunedol eraill, ers hynny.

Statws Cadwraeth

Nid oes dim adeiladau rhestredig wedi'u lleoli ar y safle ac y mae'r safle'n gorwedd ryw ychydig y tu allan i Ardal Gadwraeth Conwy (yn union ar ei hymyl gogledd-orllewinol ar Town Ditch Road).

Y mae'r safle wedi'i leoli yn ymyl Muriau'r Dref, sy'n rhedeg ar hyd ochr draw Ffordd Town Ditch, ac sydd i'w gweld yn eglur o'r safle, a'r safle yntau i'w weld yn eglur ohonynt

hwythau. Y mae'r muriau, ynghyd â'r castell, yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd.

Er bod y safle arfaethedig yn gorwedd ryw ychydig y tu allan i'r Safle Treftadaeth y Byd ei hun, y mae'n gorwedd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Creuddyn a Chonwy, a gall effeithio arni. Er nad yw hyn yn ddynodiad statudol, y mae pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi ei fod yn ystyriaeth o bwys yn y broses gynllunio a bod rhaid rhoi sylw priodol iddo wrth ddod i benderfyniad.

Cyd-destun y Safle

Tref Conwy

Tref farchnad amgaerog a chymuned yw Conwy ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar arfordir gogleddol Cymru. Y mae'r dref yn wynebu Deganwy ar draws Afon Conwy. Yr oedd gan y gymuned, sy'n cynnwys Deganwy a Chyffordd Llandudno, boblogaeth o ryw 14,200 yng nghyfrifiad 2001, a honno'n codi i 14,750 yng nghyfrifiad 2011, a phoblogaeth o ryw 4,000 yn y dref ei hun.

Y mae'r dref yn cael ei gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys gorsaf yng nghanol y dref ar brif reilffordd Gogledd Cymru, a, gan ei bod wedi'i lleoli ryw ychydig oddi ar wibffordd A55 Gogledd Cymru, y mae ganddi gyswllt da â'r system briffyrdd.

Y mae'r dref dan drem y Castell a muriau'r dref, sy'n ei gwneud yn gyrchfan dwristaidd boblogaidd. Ymhlith yr atyniadau a'r cyfleusterau i ymwelwyr y mae'r Castell a'r muriau a Phlasmawr (CADW), y Bont Grog a Thŷ Aberconwy (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) Canolfan Groeso Conwy (a redir gan yr Awdurdod Lleol) Canolfan Ymwelwyr ac Oriel Gelf Conwy, sydd dan reolaeth breifat (celfyddydau/crefftiau/siop anrhegion), yn ogystal â'r 'Tŷ Lleiaf ym Mhrydain' a'r Academi Gelf Frenhinol Gymreig.

Y mae'r dref hefyd yn gartref i wyliau blynyddol gan gynnwys yr ŵyl fwyd 'Gwledd/Feast' a Gŵyl Gerddoriaeth Canu'r Tir Glas Gogledd Cymru, a gynhelir ym Mharc Bodlondeb ei hun.

Y Safle

Cyffredinol

Y mae'r safle wedi'i leoli yng nghornel ddeheuol Parc Bodlondeb, Conwy, ar gyffordd Ffordd Bangor, Ffordd Town Ditch a Mount Pleasant ac y mae'n gorwedd gyferbyn â Phorth Ffordd Bangor.

Y mae Parc Bodlondeb wedi'i leoli i'r gorllewin o Aber Conwy, ac i'r gogledd-orllewin o Ffuriau Tref Conwy a Safle Treftadaeth y Byd UNESCO, Cestyll a Muriau Trefi'r Brenin Edward yng Ngwynedd.

Hanes

Cafodd y Tŷ Bodlondeb gwreiddiol a'r tir parc o'i gwmpas eu hadeiladu gan Deulu Holland yn 1742, ar dir a oedd yn rhan o Ystad Twttil. Fe werthwyd y safle wedyn i Albert Wood, diwydiannwr o Saltney.

Nodweddion Presennol

Y prif nodweddion sydd i'w cael ar y safle yw'r adeiladau presennol (yr adeilad a fu'n ysgol gynt a'r is-orsaf).

Yn yr opsiynau dylunio cychwynnol fe ystyriwyd cadw'r adeiladau hyn, a chynnwys yr ysgol yn rhan o'r Ganolfan.

Fodd bynnag, fe wnaed yn glir gan adolygiadau a datblygiad dylunio y byddai cadw'r adeiladau presennol yn cyfyngu'n sylweddol ar y cyfleoedd datblygu ar safle bychan ac yn amharu ar y golygfeydd o Furlau Tref Conwy a Pharc Bodlondeb ill dau yn eu tro.

Ar ben hynny, byddai angen cryn uwchraddio a gwella ar adeiladwaith yr 'adeilad ysgol' presennol i gydymffurfio â safonau ynysiad thermol cyfredol, a hefyd byddai angen uwchraddio peirianwaith gwasanaethau'r hen adeilad ysgol presennol, neu roi rhywbeth newydd yn ei le, i fod yn gymharus â'r peirianwaith gwasanaethau newydd.

Teimlid y byddai cadw'r adeilad ysgol presennol yn debygol o arwain at wrthdrawiad yn yr ieithwedd bensaernïol a bod ymdrechion i'w ymgorffori yn yr adeilad newydd yn amharu ar ansawdd y cyfleoedd newydd, ac yn cyfyngu ar y cyfleoedd, ac y dylid ystyried o ddifrif ddymchwel yr adeiladau presennol.

Felly y mae'r safle, gan gynnwys yr ysgol bresennol o 1897, wedi bod yn destun Datganiad Treftadaeth (fel y cyfeiriwyd ato eisoes) yn nodi'i hanes a'i bwysigrwydd. Noda crynodeb yr adroddiad hwnnw fel a ganlyn:

'Y mae wedi dangos nad yw'r adeilad presennol ynddo'i hun mor bwysig fel y bo angen ei gadw. At hynny, cyhyd ag y cymerir y cyfyngiadau a nodir yn yr adroddiad hwn i ystyriaeth, nid oes angen i'r Ganolfan Ddiwylliant arfaethedig gael effaith negyddol ar Werth Cyffredinol Eithriadol y Safle Treftadaeth y Byd.'

Drwy ddymchwel yr adeiladau ceir y buddion posib canlynol:

- ychwanegir yn fawr at botensial y safle arfaethedig.
- caniateir i'r brif fynedfa newydd gael ei lleoli yn y lle gorau posib.
- caniateir gwireddu'r ymagweddiad dylunio 'Pafiliwn yn y Parc'.
- caniateir 'atgyweirio' ffiniau Parc Bodlondeb â Ffordd Bangor a Town Ditch Road ac fe agorir golygfeydd di-dor o'r Parc o'r Ganolfan Ddiwylliant newydd.
- galluogir ffurfio 'porth' newydd i Barc Bodlondeb o ffin y safle â Town Ditch a chreir golygfa glir o Barc Bodlondeb i Borth Ffordd Bangor.

Ecoleg

Nid ystyrir bod y safle ei hun o werth ecolegol uchel. Daeth 'Arolwg Rhywogaethau dan Warchodaeth mewn perthynas â Dymchwel Adeiladau' (Cambrian Ecology, Mai 2016) i'r casgliad:

nad oedd dim arwydd o ddefnydd cyfredol na hanesyddol gan ystlumod, ac nid argymhellwyd unrhyw fesurau penodol o ran lliniaru nac osgoi rhesymol. Ni chofnodwyd dim materion eraill mewn perthynas â rhywogaethau dan warchodaeth na rhai ymwthiol (er bod y potensial ar gyfer adar yn nythu yn y prysgwydd trwchus wedi cael ei nodi).

Y mae Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig wedi'u lleoli gerllaw, o fewn Coed Bodlondeb (sydd hefyd yn Warchodfa Natur Leol) i'r gogledd-ddwyrain o'r safle, a hefyd yn yr hafn rheilffordd i'r de-orllewin o'r safle, (wrth gefn Ivy Cottage) lle daw'r rheilffordd i'r golwg oddi tan y rhan dwneleg o dan furlau'r dref.

Ni ddylai'r datblygiad arfaethedig hwn gael dim effaith andwyol ar y safleoedd hynny.

Coedyddiaeth

Y mae coed collddail aeddfed yn tyfu ar hyd ffin dde-orllewinol a de-ddwyreiniol y Parc ill

dwy (ac yn dod i derfyn wrth y gyffordd â safle'r ysgol). Er ein bod, ar adeg paratoi'r adroddiad hwn yn disgwyl am ganlyniadau arolwg ac adroddiad coedyddol, y bwriad yw sicrhau bod pob coeden iach yn cael ei chadw a'i gwarchod (noder: gan mai'r Awdurdod Lleol piau'r safle ystyrir bod yr holl goed presennol o dan warchodaeth).

Y bwriad yw i'r dirwedd a'r ecoleg bresennol gael eu cyfoethogi gan y datblygiad arfaethedig.

Perygl o Llifogydd

Yn ôl map llifogydd CNC y mae'r safle wedi'i leoli y tu allan i bob ardal o berygl hysbys (o gronfeydd dŵr/afonydd a dŵr o'r môr ac arwyneb y tir).

Archeoleg

Y mae Archwiliad Archaeolegol wedi cael ei gwblhau, a thra'n bod yn dal i ddisgwyl am yr adroddiad llawn rydym wedi cael cadarnhad mae'r unig ddarganfyddiad oedd ffos fas mewn tyfiant isel ar y safle. Nid yw'r ffos hon yn cael ei chysidro o fod o unrhyw bwysigrwydd hanesyddol.

Mynediad

Cerddwyr

Bydd y prif lwybrau mynediad i gerddwyr fel a ganlyn:

- o ganol tref Conwy (ac ar y trê): byddai angen i'r rhan fwyaf o gerddwyr a fyddai'n cyrraedd o'r dref ei hun basio o dan furiau'r dref, a byddent fwyaf tebygol o wneud hynny ar hyd Porth Bangor. Byddai croesfan newydd yn cael ei lleoli ar Town Ditch Road i roi'r hawl tramwy i gerddwyr fynd drosodd o'r dref i Barc Bodlondeb a'r Ganolfan.
- ar y bws: bydd y safle bysiau presennol sydd wedi'i leoli yn union ar bwys y safle ar Town Ditch Road yn aros a bydd mynediad ar gael o'r safle bysiau i'r ganolfan drwy ddewis o naill ai dynesfa sydd i bob pwrpas yn wastad (mwy na 1:20 o raddiant) neu un risiog. Byddai cerddwyr a fyddai'n dod o Stryd Berry a Glan y Cei hefyd yn mynd at y ganolfan ar hyd y llwybr hwn (sydd eisoes yn bodoli).
- o Ffordd Bangor a Mount Pleasant (a meysydd parcio cyhoeddus): byddai'r groesfan bresennol yn cael ei chadw i adael i gerddwyr groesi Ffordd Bangor fel y mae'r drefn ar hyn o bryd.
- o Barc Bodlondeb (Swyddfeydd y Cyngor, ysgolion uwchradd lleol a meysydd parcio cyhoeddus): y mae'r llwybr troed ar draws y Parc i gael ei integreiddio yn nyluniad y safle ac i fod â golygfa o Borth Ffordd Bangor. Cynigir hefyd ddarparu porth newydd i mewn i Barc Bodlondeb ar hyd y llwybr hwn.

Un brif fynedfa ac allanfa i'r adeilad newydd i gael ei darparu, wedi'i lleoli ar gornel dde-ddwyreiniol y safle, mewn lleoliad amlwg ac i fod yn addas ar gyfer yr holl lwybrau mynediad i gerddwyr.

Llwybrau troed ar oleddf i gael eu darparu i Ffordd Bangor a dynesfa â grisiau hygyrch i Town Ditch Road, i fod yn addas ar gyfer lleoliadau croesfannau ac i ddefnyddio lefelau naturiol y safle i'r graddau y gellir, a thrwy hynny hepgor o'r dyluniad gymaint ag y bo modd drefniadau ramp ffurfiol. Y llwybr troed a'r cafn planhigion presennol wrth gornel ddeheuol y safle i gael eu hintegreiddio yn nyluniad gosodiad cyffredinol y safle.

Beicwyr

Bydd mynediad i feiciau ar gael, i bob pwrpas yr holl ffordd i'r drws blaen.

Y mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (llwybr rhif 5) yn pasio'n agos at y safle, gyda darn o lwybr didraffig ar hyd traethlin Parc Bodlondeb. Bydd llwybrau sydd eisoes yn bod ar draws y Parc yn cysylltu'r Ganolfan â llwybr y rhwydwaith.

Bydd rheseli i gadw beiciau ar gael yn y Ganolfan, wedi'u lleoli mewn man cysgodol.

Cerbydau Modur a Pharcio

Er mwyn cadw naws y Parc Cyhoeddus a lleihau'r elfen o 'gipio tir' a'r effaith weledol, y mae graddfa'r ddarpariaeth ar gyfer mynediad i gerbydau a pharcio ceir ar y safle wedi cael ei chadw mor isel ag sy'n bosib.

Cynllunnir un fynedfa ac allanfa i'r safle ar gyfer cerbydau o Ffordd Bangor, ar gornel orllewinol y safle, gyda lleiniau gwelededd (2.4 x 43 m) fel a fynir gan Gyngor Conwy. Bydd angen i'r wal ffiniol bresennol gael ei dymchwel yn rhannol a'i hailadeiladu yn y manau perthnasol i ffurfio'r fynedfa arfaethedig. Bydd y coed presennol yn aros – gydag amddiffynfeydd i'r coed a'u gwreiddiau fel a gyfarwyddir gan argymhellion y syrfewyr coedyddol.

Y mae'r ddarpariaeth parcio i gydymffurfio â Safonau Parcio CDLI2. Y mae hynny'n gofyn cyfanswm o 25 o leoedd; y strategaeth yn y fan hon yw darparu'r nifer ofynnol o leoedd parcio ar gyfer ymwelwyr anabl, sef tri yn yr achos hwn, a'r gweddill yn cael eu darparu oddi ar y safle, gan ddefnyddio cyfleusterau parcio cyhoeddus sydd eisoes i'w cael a'u gwella i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael (ym Mhentre Wech, Mount Pleasant a Bodlondeb).

Yr unig gyfleuster parcio ar y safle fydd y tri lle sydd wedi'u dynodi ar gyfer deiliaid bathodyn glas; y mae'r tri lle i gyd wedi'u lleoli yn uniongyrchol oddi ar y fynedfa i gerbydau o Ffordd Bangor, ac o fewn 50m o bellter cerdded i'r brif fynedfa. Y mae lleoedd anabl ychwanegol wedi'u lleoli mewn lleoliadau parcio cyhoeddus gerllaw, gan gynnwys Mount Pleasant (tua 75m i ffwrdd).

Bydd y prosiect yn cynnwys gwelliannau i'r pafin mewn cyd-destun ehangach mewn lleoliadau wedi'u cytuno â pheirianwyr traffig yr Awdurdod Lleol, a hynny'n cynnwys darparu croesfannau cyffyrddadwy newydd mewn manau allweddol a chreu rhwystrau ymwithiol â chwrbb iddynt gyda chroesfan gyffyrddadwy ac aillosod/aillfarcio'r lleoedd parcio i wella'r gosodiad presennol, a symud y lleoedd parcio anabl sydd ar hyn o bryd yng nghefn maes parcio Pentre Wech i leoliad newydd yn nes at Ffordd Bangor.

Bydd y mynediad i gerbydau a'r man gwasanaethau ar y safle yn darparu ar gyfer cerbydau sy'n gwasanaethu'r Ganolfan, gan gynnwys gadael a chasglu'r holl lyfrau a deunydd archifol, casglu deunydd ailgylchu a sbwriel a dod â nwyddau cyffredinol (caffi ac ati), yn ogystal â pharcio ar gyfer cerbydau Llyfrgell Deithiol a mynediad/arwyneb solet ar gyfer cerbydau argyfwng (gofynion lle troi wedi'u seilio ar lori sbwriel arferol, fel y cerbyd

rheolaidd mwyaf, yn unol â gofynion y Peirianwyr Traffig).

Fe ddatblygir cynllun teithio ar gyfer y prosiect, â'r nod o annog defnydd o'r cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus ardderchog a bod pobl yn cerdded/beicio i'r Ganolfan a staff yn rhannu ceir.

O safbwynt esthetig, er ei bod yn amlwg bod gofynion technegol y mae'n rhaid cadw atynt, y strategaeth yw lleihau'r effaith weledol drwy ddefnyddio system grid daear y bydd glaswellt yn tyfu drwyddo a lleihau'r defnydd o gyrbau ac arwynebau caled.

Dyluniad Cynhwysol

Gweler y paragraffau blaenorol (mynediad i gerddwyr a cherbydau a pharcio) i gael hyd i ddatganiadau yn ymwneud â materion o ddyluniad cynhwysol mewn perthynas â mynediad i'r safle ac ar ei draws, symudiad at adeiladau ac ohonynt a mynediad at drafndiaeth gyhoeddus ac amwynderau.

Cymerir pob cam rhesymol i sicrhau bod cyfleusterau'r adeilad yn hygyrch ac o fudd i bawb. Rhoddir ystyriaeth i gynnwys y rhai ag anawsterau symud, nam ar y synhwyrau ac anawsterau dysgu, â'r bwriad o ddileu neu ddylunio i ffwrdd unrhyw rwystrau sy'n peri bod gofyn ymdrech ormodol, gwahanu neu driniaeth arbennig.

Y mae'r cleient yn ymroddedig i ymgynghoriad parhaus â grwpiau mynediad lleol, a chanlyniadau hynny'n parhau i gael eu bwydo yn ôl i'r fim dylunio.

Y Gymraeg

Fe wnaiff y Cyngor sicrhau bod y prosiect yn cefnogi ac yn cynnal lles hirdymor y Gymraeg.

Yn unol â Pholisi CTH/5 o'r Cynllun Datblygu Lleol y mae Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol wedi cael ei baratoi i fynd ynghyd â'r Cais Cynllunio.

Cysyniad y Naws a'r Dyluniad

Cynnal ac Atgyfnerthu'r Naws Lleol

O ran cynllunio a phensaerniaeth y mae eisiau i'r Ganolfan Ddiwylliant daro cydbwysedd gofalus, a'r dyheadau yn y briff am adeilad cyfoes a thrawiadol yn gorfod cael eu hystyried yng nghyd-destun sensitifrwydd Safle Treftadaeth y Byd.

Y mae'r safle yn eithaf heriol mewn llawer o ffyrdd. Y mae safle'r hen ysgol yn troi'i gefn ar y parc, heb wneud ymdrech o fath yn y byd i ymagweddu'n bositif tuag ato, yn wir y mae'r waliau ffiniol yn cael yr effaith o dorri unrhyw gyswllt gweledol rhwng y parc a Phorth Bangor, sef y fynedfa naturiol i ben uchaf y dref o Barc Bodlondeb. At hynny, er nad oes dim tystiolaeth ddogfennol i brofi'r pwynt teimlir ei bod yn debygol mai canlyniad i bresenoldeb yr ysgol yw'r toriad yn y ffin goediog ar y gornel hon.

Er mwyn i'r adeilad eistedd yn gyfforddus yn y lleoliad hwn teimlir mai priodol fyddai ei osod yn ôl rywfaint o'r union gornel; y mae hyn yn caniatáu i'r prosiect 'iacháu'r' ffin goediog doredig yn y fan hon, drwy ffurfio ymyl â phoncyn glaswelltrog sydd i'w blannu â choed newydd lled-aeddfed.

Y mae hyn yn caniatáu i'r adeilad fod wedi'i osod yn iawn o fewn y tir parc ac wedi'i gysylltu ag ef, gan ddarparu'r cyfle, felly, i'r Ganolfan Ddiwylliant newydd fod yn rhan wirioneddol o wead Parc Bodlondeb a gweithgareddau'r Parc. Yn yr un modd ag y mae'r 'Lodges' yn nodi'r mynedfeydd eraill i'r Parc bydd y Ganolfan Ddiwylliant newydd yn gweithredu fel 'porth' newydd i Barc Bodlondeb ac i gynyddu presenoldeb gweledol y parc o Ffordd Bangor a Town Ditch Road.

Y mae'r adeilad wedi cael ei gyfeiriadu ar ongl yn gyfochrog â llinell y llwybr presennol sy'n croesi'r Parc o Fodlondeb ei hun i Borth Bangor; y mae hyn yn galluogi ailgysylltu'r dref â'r Parc. Y mae'r brif fynedfa wedi'i lleoli'n uniongyrchol ar y llwybr hwn, lle daw'r gwahanol lwybrau eraill i'r safle at ei gilydd, o'r dref (ar draws y groesfan newydd ar Ffordd Town Ditch) o'r safle bysiau cyfagos, ac o Ffordd Bangor, ar draws y groesfan bresennol.

Dylai'r adeilad arfaethedig fod yn ddymunol ac yn ddeniadol ond hefyd yn dawel ac yn ddiroddres. Er y dylai'r adeilad fod yn gyfoes, dylai'r defnyddiau a'r dewis o liwiau adlewyrchu'r tir parc o'i amgylch.

Hybu Datblygiad Darllenadwy

Bydd yr adeilad arfaethedig yn hawdd ei adnabod ac yn ddealladwy'n rhwydd i'r holl ymwelwyr.

Bydd y brif fynedfa'n amlwg, ac y mae wedi'i lleoli lle daw pob un o'r llwybrau troed sy'n pasio drwy'r safle at ei gilydd. Bydd y fynedfa ei hun wedi'i 'harwyddbostio', yn llythrennol (yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg ill dwy) a, lle bo'n briodol mewn ieithoedd eraill gan gynnwys Braille) a hefyd yn bensaernïol, er enghraifft drwy eglurder o ran arwynebau pafin a'r defnydd o ganopi bargodol er mwyn pwyslais.

Fel a nodwyd eisoes bydd yr adeilad ei hun yn gweithredu fel porth ac fe atgyfnerthir yr ymdeimlad o greu 'marciwr' drwy gyflwyno adeiladwaith tirweddol a fydd yn fframio'r fynedfa i'r Parc yn ffisegol.

Maintiolaeth, nodweddion a ffurf yr adeilad

Sensitifrwydd y Cyd-destun Hanesyddol sydd o'r pwys mwyaf o ran graddfa a maintiolaeth yr adeilad arfaethedig: y mae'n glir na ddylai'r Ganolfan newydd gystadlu â Muriau Tref Conwy mewn unrhyw ffordd. Ar ben hynny, bydd un o'r golygfeydd allweddol o'r adeilad i'w weld o ben mur y dref ei hun, sy'n golygu bod dyluniad terfynol to'r adeilad yn 'bumed gweddolun' hanfodol bwysig.

Gyda hyn mewn cof, y mae'r weledigaeth ar gyfer yr adeilad yn unol â'r ymagweddiad 'pafiliwn/cynhordy' o adeilad 'isel ei broffil' sy'n cydweddu â phwyslais llorweddol y tir parc, ac yn cadw'r adeilad 'yn agos at y ddaear' er mwyn lleihau'i effaith ar olygfeydd o'r Muriau a'r Parc (tuag atynt ac oddi wrthynt fel ei gilydd).

Ar yr un pryd â pharchu'r angen i sicrhau amgylchedd mewnol cyfforddus y bwriad yw defnyddio manau tryloyw helaeth er mwyn cael cymaint o olygfeydd allan o'r adeilad ag sy'n bosib a gwneud y defnydd mwyaf posib o olau dydd naturiol; bydd hyn hefyd yn darparu mwy o olygfeydd i mewn i'r adeilad newydd, a hyn yn esgor ar ymgysylltiad â'r amgylchedd allanol.

Diogelwch Cymunedol

Darperir diogelwch drwy fod yr adeilad o dan wyladwraeth naturiol o lwybrau troed sy'n mynd heibio a thraffig ar y ffyrdd cyfagos a hefyd drwy feithrin perchenogaeth gymunedol a balchder bro drwy sicrhau bod yr adeilad yn darparu manau cyhoeddus deniadol a saff o ansawdd uchel.

Ymgymerir ag ymgynghoriad 'Diogelu Drwy Ddylunio' gyda Swyddog Cyswllt Pensaernïol Heddlu Gogledd Cymru.

Cynaliadwyedd

Cyffredinol

Bydd y Ganolfan Ddiwylliant arfaethedig yn brosiect cynaliadwy, ac egwyddorion arfer dda'n cael eu rhoi ar waith ar draws pob agwedd ar ddyluniad, adeiladwaith a rheolaeth arfaethedig y Ganolfan. Darperir tystiolaeth ffurfiol o hyn drwy ddefnyddio'r teclyn BREEAM – a gradd 'Ardderchog' i'w hennill.

Atgyfnerthu bioamrywiaeth

Nid ystyrir bod y safle ei hun o werth ecolegol uchel, fel a gadarnhawyd gan yr 'Arolwg Rhywogaethau dan Warchodaeth mewn perthynas â Dymchwel Adeiladau' (Cambrian Ecology, Mai 2016) a gadarnhaodd nad oedd dim ystumod nac unrhyw rywogaethau eraill dan warchodaeth ar y safle.

Eto, lle bo'n briodol, cymerir cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a'r potensial am gynefin yn yr adeilad ei hun a hefyd yn y cynllun tirwedd ar gyfer y prosiect. Y mae hyn yn cynnwys defnyddio to bywlys i'r rhan fwyaf o'r adeilad.

Gwneir cymaint o ddefnydd o'r tir ag y bo modd at ddibenion a chyfleusterau cymunedol, a lle bo'n briodol cyflwynir cyfleoedd i ddehongli'r amgylchedd lleol i mewn i'r cynllun.

Cysylltedd

Croesgyfeirier at y rhan o'r Datganiad hwn sy'n ymdrin â 'Mynediad'. Fel a nodir yn y rhan honno bydd gan y Ganolfan ddarpariaeth ragorol o drafnidiaeth gyhoeddus, a thrwy hynny hyrwyddir ffyrdd cynaliadwy o deithio fel modd i gyrraedd y Ganolfan.

Fe ddatblygir cynllun teithio ar gyfer y prosiect, â'r nod o annog defnydd o'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ardderchog a bod pobl yn cerdded/beicio i'r Ganolfan a staff yn rhannu ceir.

Rheolaeth

Manylebau o ran defnyddiau a gorffeniadau i ystyried costio cylch einioes ac ati, gan gynnwys materion cynnal a chadw. System Rheoli Adeilad i gael ei hymgorffori i reoli'r system Fecanyddol a Thyrdanol.

Effeithlonrwydd Ynni / Lleihau Carbon

Fel egwyddor ddylunio gyffredinol fe fabwysiedir strategaethau Goddefol/Ynni Isel – i gynnwys dylunio'r adeiladwaith, peirianwaith gwasanaethau'r adeilad ac integreiddio technolegau adnewyddol.

Fe ymgorfforir y canlynol yn nyluniad yr adeilad:

Bydd storfa'r archifdy wedi'i lleoli ar lefel islawr; y prif reswm dros hyn yw y bydd yn sicrhau amgylchedd sy'n hanfodol sefydlog, gan leihau'r angen am beirianwaith drud i reoli gwresogi/awyru/lleithder a'r costau rhedeg (hyn i gyd i fod yn destun modelu thermol manwl).

Defnydd isel o ddŵr (troethfeydd di-ddŵr / sestonau dwrlif isel / tapiau taro ac ati)

Ffynonellau ynni adnewyddol : Paneli Ffotofoltäig i'w darparu.

Gwneir y defnydd mwyaf y gellir o olau dydd naturiol, ar yr un pryd â sicrhau bod gorlacharedd yn cael ei osgoi.

Gofodau mawr i'w hawyru'n naturiol drwy ddefnyddio croesawyru, gyda chymysgedd o awyrdyllau/lwfrau a reolir â llaw ac yn awtomataidd.

Gwresogi gofod i'r prif ofodau : Bwyleri cyddwyso nwy effeithlonrwydd uchel fel y brif ffynhonnell wres. Fe ystyriwyd defnyddio pypiau gwres o'r ddaear, ond y mae'n annhebygol y bydd hyn yn ateb cost-effeithiol.

Fe gaiff defnyddiau a achubir o ddymchweliad yr adeiladau presennol eu hailddefnyddio lle bynnag y bo modd (e.e. gwaith maen ac ati).

Defnyddiau lleol i'w defnyddio lle gellir. Hefyd contractwyr a chyflenwyr lleol i'w defnyddio lle gellir.

Symudiad

Croesgyfeirier at y rhan o'r Datganiad hwn sy'n ymdrin â 'Mynediad'. Fel a nodir yn y rhan honno, y mae'r Ganolfan wedi'i lleoli fel y bydd wedi'i chysylltu a'i hintegreiddio'n dda â'r isadeiledd trafniadaeth gyhoeddus leol, a thrwy hynny hyrwyddir ffyrdd cynaliadwy o deithio fel modd i gyrraedd y Ganolfan.

Bydd mynediad o feysydd parcio a chysylltfeydd trafniadaeth gyhoeddus yn saff, yn glir, yn rhwydd ac yn ddeniadol.

Darperir cyfleusterau lluniaeth ac ymolchfa ar y safle i'r holl ymwelwyr. Hefyd, darperir lleoedd parcio car ar y safle i ddeiliaid bathodyn glas a darperir lleoedd diogel a chloadwy i storio beiciau ar gyfer beicwyr.

Amseriad y Gwaith

Y mae'r Llyfrgell bresennol yng Nghonwy i fod i gau yn Haf 2017

Gwasanaethau Llyfrgell ar gyfer Conwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno i gael eu symud a'u lleoli yn Swyddfeydd Dinesig Bodlondeb hyd nes bo'r Ganolfan newydd wedi'i chwblhau.

Y Llyfrgell newydd i agor yn Haf 2018.